


cyngor doeth am

# GYLLID I FYFYRWYR



## Cyllid i fyfyrwyr ar gyfer rhieni myfyrwyr 2016/17



### **A fydd eich plentyn yn mynd i'r brifysgol neu'r coleg? A ydych yn ystyried sut y bydd yn talu am ei gwrs? Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yma i helpu.**

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn wasanaeth a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Rydym yn darparu cyllid i fyfyrwyr ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru sy'n cychwyn ar gwrs addysg uwch yn y Deyrnas Unedig.

### **Esbonio cyllid i fyfyrwyr**

Pan fydd yn y brifysgol neu'r coleg, bydd gan eich plentyn ddwy brif gost – ffioedd dysgu a chostau byw. Yn ddibynnol ar amgylchiadau eich plentyn, ei gwrs a ble mae'n astudio, gall gael amrediad o gymorth ariannol i'w helpu i dalu'r ddau. Ceir benthyciadau (y bydd yn rhaid eu talu'n ôl) a grantiau a bwrsariaethau (na fydd yn rhaid eu talu'n ôl).

### **Beth sydd ar gael?**

Yn ddibynnol ar ble mae'n astudio, efallai y bydd modd iddo gael Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd i dalu ei ffioedd dysgu llawn, ac mae Benthyciad Cynhaliath a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn helpu talu costau byw megis rhent a biliau.

Mae Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a rhan o'r Benthyciad Cynhaliath yn dibynnu ar incwm eich cartref – hynny yw, eich incwm chi a'ch gŵr, eich gwraig, eich partner sifil neu'ch partner. Nid yw'r Benthyciad Cynhaliath sylfaenol (75% o'r gyfradd uchaf) yn dibynnu ar incwm eich cartref, ond mae'r 25% sy'n weddill yn dibynnu arno.

### **Help ychwanegol**

Mae help ychwanegol ar gael i'r rhai mewn amgylchiadau penodol hefyd, er enghraifft, myfyrwyr y mae ganddynt blant neu oedolion dibynnol, anabled, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr help ychwanegol hwn ar ein gwefan:


[www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk)

### **Sut fydd fy mhlentyn yn ad-dalu?**

Ni fydd yn rhaid iddo ad-dalu ei fenthyciad nes bydd wedi gorffen neu adael y brifysgol neu'r coleg ac mae ei incwm dros £21,000 y flwyddyn, £1,750 y mis neu £403 yr wythnos. Bydd yn ad-dalu 9% o'i incwm dros y symiau hyn.

Os bydd incwm eich plentyn yn gostwng dan y trothwyon hyn, bydd ei ad-daliadau yn stopio yn awtomatig.

Am ragor o wybodaeth ynghylch ad-dalu, trowch at:  
[www.studentloanrepayment.co.uk](http://www.studentloanrepayment.co.uk)




student finance **wales**  
cyllid myfyrwyr **cymru**



# Cyngor defnyddiol

Dylech osod hwn ar eich hysbysfwrdd neu'ch oergell



## GWNEUD CAIS A CHAEL EICH TALU

Yr hyn y mae angen i chi a nhw ei wneud

- 1 Gall eich plentyn ymgeisio am gyllid i fyfyrwyr cyn derbyn lle yn y brifysgol neu'r coleg.
- 2 Y ffordd gyflymaf a hawsaf o wneud cais yw ar-lein trwy droi at: **www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk**. Mae'n bwysig ei fod yn ymgeisio cyn gynted ag y bydd y gwasanaeth ymgeisio yn agor i wneud yn siŵr fod cyllid i fyfyrwyr yn ei le ar ddechrau'r cwrs.
- 3 Os bydd eich plentyn yn gwneud cais am y Benthyciad Ffioedd Dysgu, y Grant Ffioedd a'r Benthyciad Cynhaliaeth sylfaenol (y rhan nad yw'n dibynnu ar incwm eich cartref) yn unig, gall lenwi'r cais ac ni fydd yn rhaid i chi wneud unrhyw beth.
- 4 Os bydd eich plentyn yn gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr sy'n dibynnu ar incwm eich cartref, byddwch yn cael neges e-bost yn rhoi gwybod i chi ei bod yn bryd cofrestru cyfrif ar-lein.
- 5 Gofynnir i chi ddarparu eich rhif Yswiriant Gwladol a manylion eich incwm. Gofynnir i'ch gŵr, eich gwraig, eich partner sifil neu'ch partner am ei fanylion/manylion ar wahân, a byddwn yn eu cyfuno er mwyn cael incwm eich cartref.
- 6 Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni er mwyn cadarnhau'ch incwm yn uniongyrchol gyda HMRC, gan ddefnyddio'ch rhif Yswiriant Gwladol.
- 7 Yna, efallai y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn i chi anfon tystiolaeth neu wybodaeth bellach atom i gefnogi'r hyn yr ydych wedi'i ddweud wrthym.
- 8 Byddwn yn asesu'r cais a lanwyd, gan anfon llythyr Hawl i gael Cyllid i Fyfyrwyr at eich plentyn.
- 9 Rhaid i'ch plentyn fynd â'i lythyr Hawl i gael Cyllid i Fyfyrwyr i'w brifysgol neu goleg pan fydd yn cofrestru.
- 10 Bydd ei brifysgol neu goleg yn dweud wrthym fod eich plentyn wedi cofrestru.
- 11 Yna, byddwn yn talu'r rhandaliad cyntaf o dri rhandaliad Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a/ neu daliadau Benthyciad Cynhaliaeth i gyfrif banc eich plentyn. Yn ogystal, byddwn yn talu ei Fenthyciad Ffioedd Dysgu a'i Grant Ffioedd i'w brifysgol neu goleg yn uniongyrchol. Telir ei gyllid i fyfyrwyr bob tymor.

Am fwy o wybodaeth ac arweiniad, ewch i:

**www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk**

 facebook/SFWales  twitter/SF\_Wales

 youtube.com/SFWfilm

cyngor doeth am

**GYLLID I FYFYRWYR**

student finance **wales**  
cyllid myfyrwyr **cymru**

